# INNES, JOHN, ' Ynys Hir ', (1853? - 1923), cyfrifydd a hynafiaethydd

**Enw:** John Innes
**Ffugenw:** Ynys Hir
**Dyddiad geni:** 1853?
**Dyddiad marw:** 1923
**Priod:** Alice Anne Mary Innes (née Rees)
**Plentyn:** John Innes
**Plentyn:** Alfred George Innes
**Plentyn:** James Dickson Innes
**Rhiant:** Robert Vertue Innes
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyfrifydd a hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Economeg ac Arian; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Hywel David Emanuel

a anwyd yn Campbelltown, swydd Argyle, yn yr Alban. Penodwyd ei dad, Robert Vertue Innes, yn gasglwr tollau dros ranbarth de Cymru yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin, a chymerodd ran amlwg yn sefydliad ysgol uwchradd yn y dref tua 1863. Cyfrifydd oedd John Innes yng ngwasanaeth y Mri. Nevill Druce, yn Llanelli. Ar 9 Awst 1883 yn eglwys yr Holl Saint, Llanelli, priododd ag Alice Ann Mary, unig blentyn y diweddar Alfred C. G. Rees o Ystumllwynarth, a ganwyd tri mab iddynt rhwng 1884 a 1887, - Alfred George (gweler *Who's Who in Wales*, arg. 1920, t. 203), John (bedyddiwyd 24 Tachwedd 1885), a James Dickson yr arlunydd (gweler yr erthygl flaenorol). Ym mis Gorffennaf 1913 oherwydd ei iechyd symudodd Innes i Whitchurch ger Tavistock yn swydd Dyfnaint, lle hefyd y bu farw 7 Mai 1923 yn 70 mlwydd oed. Ef oedd un o arloeswyr sefydlu'r ' Mechanics Institute ' a fabwysiadwyd wedi hynny gan y dref a'i wneud yn llyfrgell gyhoeddus Llanelli. Gweithredodd Innes fel cadeirydd pwyllgor y llyfrgell am rai blynyddoedd cyn ymadael â'r dref. Traddododd nifer o ddarlithiau ar destunau yngl n â hanes lleol ardal Llanelli, ac o'r diwedd darbwyllwyd ef i'w gwneud yn llyfr. Yn 1902, gyda chydweithrediad Arthur Mee, cyhoeddodd Innes lyfr *Old Llanelly*. Y mae'n waith o ansawdd llenyddol go uchel, yn cynnwys hanesion diddorol a chyffyrddiadau ysgafn yn ogystal â ffeithiau hanesyddol. Ymddiddorai Innes hefyd mewn ffotograffi a daeareg, ac yr oedd ganddo gasgliad gwych o ffosilau wedi'u casglu o weithfeydd a chwareli'r cylch.

## Awdur

**Hywel David Emanuel**, (1921 - 1970)

## Ffynonellau


*South Wales Press*, yn enwedig 14 Awst 1883, Mehefin-Gorffennaf 1913 a 9 Mai 1923

*Llanelly and County Guardian*, 10 Mai 1923,

Dogfennau'r Eglwys yng Nghymru yn Ll.G.C.


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733463


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu